Dŵr Cymru Welsh Water

Educating our future customers | Addysgu cwsmeriaid y dyfodol

# Mathemateg Ailgylchu 2

Beth sydd wedi cael ei ailgylchu ers y dechrau ar ein planed ni ac sy'n dal i gael ei ailgylchu (heb help gennym ni)? DŴR! Mae Dŵr Cymru'n ailgylchu dŵr. Rydym yn tynnu dŵr o'r afon (yn ei lanhau, ei ddefnyddio a'i lanhau eto) ac yn ei roi yn ôl yn yr afon neu'r môr. Gall PAWB ohonom helpu'r blaned trwy ailgylchu defnyddiau eraill.

Darllenwch y ffeithiau hyn am Ailgylchu. Defnyddiwch yr wybodaeth i ganfod y ganran. Newidiwch y ganran i ffracsiwn a rhif degol.

| | Canran | Ffracsiwn | Rhif Degol |
|---|---|---|---|
| Gall hyd at 80% o gerbyd gael ei ailgylchu. | 80% | 8/10 | 0.8 neu 0.80<br>Mae'r rhifau hyn yn golygu yr un peth |
| Mae 29 allan o 100 o boteli a ailgylchir yn mynd i wneud poteli newydd | | | |
| Mae 16c o bob punt a dalwch am eitem yn talu am y deunydd pecynnu. | | | |
| Byddai 9 o bob 10 o bobl yn ailgylchu mwy pe bai'r broses yn haws. | | | |
| Gallai 6 eitem o bob 10 sydd yn y bin fod wedi cael eu hailgylchu. | | | |
| Byddai modd compostio hanner y gwastraff sydd mewn biniau sbwriel arferol. | | | |
| Byddai modd ailddefnyddio un o bob pedwar o'r eitemau trydan sy'n mynd i'r domen. | | | |
| Mae 18 o bob 20 clwt/cewyn untro i fabanod yn mynd i safleoedd tirlenwi. | | | |
| Yn America, mae 14 o bob 20 can yn cael eu hailgylchu. | | | |
| Mae 30 o bob 50 o bobl sy'n byw yn yr Almaen yn ailgylchu. | | | |